

CLOUGH, Syr RICHARD (?- 1570), marsiandwr a chynrychiolydd Syr Thomas Gresham (am gyfnod) yn Ewrop

Enw: Richard Clough

Dyddiad marw: 1570

Priod: Catrin ferch Tudur ap Robert Fychan

Priod: Catherine Clough (née Muldert)

Plentyn: Mary Wynn (née Clough)

Plentyn: Anne Salusbury (née Clough)

Plentyn: Richard Clough

Rhiant: Richard Clough

Rhyw: Gwryw

Galwedigaeth: marsiandwr a chynrychiolydd Syr Thomas Gresham (am gyfnod) yn Ewrop

Maes gweithgaredd: Diwydiant a Busnes; Economeg ac Arian; Teuluoedd Brenhinol a Bonheddig

Awdur: William Llewelyn Davies

Mab ieuengaf Richard Clough, menygwr, Dinbych.

Ceir manylion gweddol lawn am yrfa Richard Clough yn y *D.N.B.*; yma pwysleisir y cysylltiadau â Chymru yn unig. Aeth yn fachgen i ganu yng nghôr yr eglwys gadeiriol yng Nghaer, ac oddi yno i Lundain; yr oedd eto'n ieuanc pan aeth ar bererindod i Balesteina a chael ei greu yn ' Knight of the Holy Sepulchre ' - dyna sy'n cyfrif am y 'Syr' a geir o flaen ei enw weithiau. Aeth i wasanaeth Syr Thomas Gresham yn Llundain; yn 1552 fe'i ceir wedi ymsefydlu yn Antwerp fel cynrychiolydd tramor i Gresham. Ysgrifennai'n fynych at ei feistr ac at William Phayre (y mae'r llythyrau gwreiddiol yn y Public Record Office, Llundain; gweler e.e. *Cal. S.P. For.*, 1566-8); Clough a awgrymodd i Gresham y priodoldeb o sefydlu ' Exchange ' yn Llundain at wasanaeth marsiandwyr, ar batrwm y ' Bourse ' yn Antwerp. Ym mis Chwefror 1563-4 fe'i ceir yn ceisio trwy [Cecil \(Arglwydd Burghley\)](#) les ar diroedd y Goron yng Nghymru a Lloegr, a'r flwyddyn ddilynol caniatâwyd ei gais - yn siroedd Caernarfon, Fflint, Nottingham, a Buckingham yr oedd y tiroedd. Dychwelodd i Gymru ym mis Ebrill 1567 a phriodi [Catherin o'r Berain](#), yn ail riddi hi. (Buasai yntau'n briod cyn hynny - â Catherine Muldert, Antwerp; mab iddynt oedd Richard Clough, cyndad y [Cloughiaid](#) y ceir erthygl arnynt; gweler hefyd [J. E. Griffith, Pedigrees](#), 329; am hanes tair priodas [Catherin o'r Berain](#) gweler yr erthygl ar y wraig honno.) O'r briodas â [Catherin o'r Berain](#) bu dwy ferch, ac ohonynt hwy y disgynnodd [Hester Lynch Salusbury](#) a [Syr Robert Salusbury](#) (bu farw 1818), barwnig Cotton Hall, sir Ddinbych, a Llanwern, sir Fynwy. Tuag adeg ei briodas dechreuodd Clough adeiladu dau d - Bachygraig a Plas Clough, y ddau heb fod ymhell o dref Ddinbych; ymddengys fod ganddo d yn y dref hefyd. Ym mis Mai yr oedd yn ôl yn Antwerp, a'i wraig gydag ef; ychydig yn ddiweddarach buont yn Sbaen ac yn Hamburg. Bu Clough farw yn Hamburg rywbryd rhwng 11 Mawrth a 19 Gorffennaf 1570; claddwyd ef yn y dref honno, eithr dygwyd ei galon yn ôl i Gymru i'w chladdu yn yr Eglwys Wen, Dinbych. Arfaethai Clough wneuthur llawer o bethau er lles ei wlad enedigol; e.e. amcanai ddyfnhau gwely afon Clwyd er mwyn cael llongau bychain i ddyfod cyn belled â Rhuddlan. Yr oedd yn adnabod yr Is-Elmynnwr Abraham Ortelius, ysgolhaig a mapiwr enwog,

ac efe a barodd ddyfod ag Ortelius a [Humphrey Lhuyd](#), Dinbych, i gysylltiad â'i gilydd. Tybir mai tua 40 oed ydoedd pan fu farw. Canwyd marwnadau iddo gan [Siôn Tudur](#), [Simwnt Fychan](#), a [Wiliam Cynwal](#); heblaw'r farwnad canodd [Cynwal](#) gywyddau iddo ef (a'i wraig [Catherin](#)) gyda'r teitlau hyn - ' Kowydd i yrru y gwalch i annerch mr Ric. Klwch a meistres Catrin penn oeddynt yn Anwarp ' a ' Kowydd i yrru y llong i nol mr Ric Klwch a meistres Katrin adref o ddengmark.' Mewn un cywydd marwnad geilw [Cynwal](#) ef 'marchog o vedd Krist.'

Awdur

Syr William Llewelyn Davies, (1887 - 1952)

Ffynonellau

*Oxford Dictionary of National Biography*a'r cyfeiriadau a roddir yno

J. Ballinger, 'Katheryn of Berain ...', yn *Y Cymmrodor*, xl

Calendar of State Papers, Foreign Series, 1566-8

J. E. Griffith, *Pedigrees of Anglesey and Carnarvonshire Families* (1914), 329

darlun yn Thomas Pennant, *A Tour (Tours) in [North] Wales*

NLW MSS 6496, 12473

Darllen Pellach

Erthygl Wicipedia: [Richard Clough](#)

Dolenni Ychwanegol

VIAF: [266287648](#)

Wikidata: [Q7324802](#)

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC-RUU/1.0/> 

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n [tudalen codi arian](#) am ragor o wybodaeth.

